**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2298 (Cy.197)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Awst 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Medi 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Medi 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 21(6), 60 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 22 Medi 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Y Fframwaith Cenedlaethol

**2.** Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a baratowyd gan Weinidogion Cymru sy'n dwyn yr enw "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008 — 2011" a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 28 Awst 2008 ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru(**3**) yn cael effaith fel diwygiad, sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn arwyddocaol, o "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005"(**4**).

(**1**) 2004 p. 21.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire /?lang=cy
(**4**) Rhoddwyd effaith i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 gan O.S. 2005/760 (Cy.64).

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

28 Awst 2008

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ("y Fframwaith"), sy'n gorfod gosod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub ac yn gallu darparu canllawiau. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub roi sylw i'r Fframwaith wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, sy'n cael effaith mewn perthynas ag Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, yn rhoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008—2011 yn lle Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005.

Bydd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008—2011 yn cael effaith o 22 Medi 2008. Rhoddwyd effaith i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 gan OS 2005/760(Cy.64). Gellir cael copïau o Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008—2011 gan y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhyd y car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ. Cafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/?lang=cy) ar 28 Awst 2008.

Mae asesiad effaith reoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhyd y car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn: 01685 729253).